

# PWYLLGOR APELAU

**DYDD LLUN, 20 MAWRTH 2023**

**PRESENNOL** Cynghorydd J.K. Howell (Cadeirydd)

**Cynghorwyr :**

S.M. Allen

L.M. Davies

N. Evans

D. Jones

**Hefyd yn bresennol:**

C. Jones, Cyfreithiwr Cynorthwyol

L. Evans, Uwchradd Adnoddau Dynol

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell Pwyllgor 2, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin. SA31 1LE. - 9.45 yb - 3.00 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd D Owen

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

<b>Y Cynghorydd</b>	<b>Rhif y Cofnod</b>	<b>Y Math o Fuddiant</b>
D. Jones	6 – Ystyried apêl yn erbyn diswyddo – Adran Cymunedau	Wedi cwrdd â'r ddau dyst mewn capasiti proffesiynol yn unig

**3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 17 MAWRTH 2022**

**PENDERFYNWYD** llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022 gan eu bod yn gofnod cywir.

**4. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.**

Nid oedd dim.

**5. DDIM I'W GYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD** yn unol â Pharagraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig a chanlyniad y prawf budd y cyhoedd o ran y materion hyn oedd:

“Roedd yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth bersonol ynghylch yr ymgeiswyr. Er y byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd, roedd y budd i'r cyhoedd o gadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, am fod angen sicrhau nad oedd neb yn gwybod pwy oedd yr ymgeiswyr na'u teuluoedd”.

## 6. YSTYRIED APEL YN ERBYN DISWYDDO - ADRAN CYMUNEDAU

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 5 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig a fyddai'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw.

Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud ag enw'r apelydd a manylion personol eraill, sef data personol yn unol â'r diffiniad yn Adran 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998. Nid oedd y mater a fyddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor yn fater budd cyhoeddus. Byddai datgelu'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad yn annheg ac yn groes i hawl yr apelydd i gael preifatrwydd. Felly ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cynnwys yr adroddiad yn gyfrinachol yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r apelydd, ynghyd â'r Swyddog Comisiynu, y Swyddog Ymchwilio penodedig a'r cynrychiolydd Adnoddau Dynol, ac amlinellodd y protocol y byddid yn ei ddilyn wrth wrando ar yr apêl (roedd copïau o'r protocol wedi'u cynnwys ym mhecyn yr agenda).

Gan hynny, gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth gan y Swyddog Comisiynu a'r apelydd. Cafodd y ddwy ochr gyfle i groesholi ynghylch y dystiolaeth a roddwyd ac i grynhoi. Ar ôl gwneud hynny, gadawodd y ddwy ochr y cyfarfod tra oedd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth a'r sylwadau a gyflwynwyd.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, ynghyd â'r sylwadau a wnaed gan yr apelydd a'r Swyddog Comisiynu,

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r apêl a rhoi gwybod i'r apelydd, yn ysgrifenedig, am y dyfarniad llawn.**

---

CHAIR

---

DATE